OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 201- Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Aros) 201-

*Gwnaed* *201-*

*Yn dod i rym* *201-*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A483 Abertawe - Manceinion ("y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 4(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** ("Deddf 1984") a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed - Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 201-. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Aros) 201-.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn –

mae i "bathodyn person anabl" ("*disabled person's badge*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000**(2)**;

mae i "disg barcio" ("*parking disc*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000**(3)**.

(2) At ddibenion y Gorchymyn hwn bernir bod cerbyd yn arddangos:

(i) bathodyn person anabl yn y lle perthnasol:

(a) yn achos cerbyd ac iddo ddangosfwrdd neu banel deialau, pan fo'r bathodyn yn cael ei arddangos ar y dangosfwrdd neu'r panel deialau

fel bod tu blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o’r tu allan i’r cerbyd; neu

(b) yn achos cerbyd nad oes iddo ddangosfwrdd neu banel deialau, pan fo’r bathodyn yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod tu blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o’r tu allan i’r cerbyd; a

(ii) disg barcio yn y lle perthnasol:

(a) yn achos cerbyd ac iddo ddangosfwrdd neu banel deialau, pan fo’r ddisg yn cael ei harddangos ar y dangosfwrdd neu’r panel deialau fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o’r tu allan i’r cerbyd; neu

(b) yn achos cerbyd nad oes iddo ddangosfwrdd neu banel deialau, pan fo’r ddisg yn cael ei harddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o’r tu allan i’r cerbyd.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthyglau 4 a 5, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ymylon y darnau o’r gefnffordd yn Llanymddyfri yn Sir Gaerfyrddin a bennir yn yr Atodlen.

**Esemptiadau**

**4.** Ni fydd dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ymylon y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy’n angenrheidiol i alluogi:

(a) person i fynd i mewn i gerbyd neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd, os na fydd modd ei ddefnyddio’n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag

unrhyw un o'r gweithrediadau canlynol:

i. gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

ii. symud unrhyw rwystr i draffig;

iii. cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o'r gefnffordd; neu

iv. gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darnau hynny o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw linell delegraffig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003**(4)**;

(d) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darnau hynny o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddynt;

(f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(g) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

i. pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

ii. pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain; neu

iii. pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

**5.** Ni fydd dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i gerbyd sy'n dangos yn y lle perthnasol fathodyn person anabl a disg barcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gyfrifol am y cerbyd, wedi nodi arnynt yr amser pan ddechreuodd y cyfnod aros) aros am gyfnod nad yw'n fwy na 3 awr, ar yr amod bod awr o leiaf yn gwahanu'r cyfnod hwnnw a chyfnod blaenorol y bu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod ar yr ymylon o'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Dirymiadau**

**6.** Mae Gorchymyn Cefnffordd (yr A483) (Llanymddyfri, Dyfed) (Gwahardd Aros) 1991**(5)** a Gorchymyn Cefnffordd (yr A483) (Llanymddyfri, Dyfed) (Gwahardd Aros) (Diwygio) 1992**(6)** drwy hyn wedi eu dirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 201-

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22) a pharagraff 61 o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(2)** O.S. 2000/1786
**(3)** O.S. 2000/1785
**(4)** 2003 p.21.
**(5)** O.S. 1991/2156
**(6)** O.S. 1992/1340

**YR ATODLEN**

1. Y darn o ymyl ogleddol y gefnffordd a elwir yn Heol Newydd, Llanymddyfri sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A40 hyd at bwynt 75 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno.

2. Y darn o ymyl ogleddol y gefnffordd a elwir yn Heol Newydd, Llanymddyfri sy'n ymestyn o bwynt 192 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â chefnffordd yr A40 hyd at bwynt 236 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno.

3. Y darn o ymyl ogleddol y gefnffordd a elwir yn Heol Newydd, Llanymddyfri sy'n ymestyn o bwynt 272 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â chefnffordd yr A40 hyd at bwynt 326 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno.

4. Y darn o ymyl ogleddol y gefnffordd a elwir yn Heol Newydd yn un rhan ac yn Heol Llanfair mewn rhan arall, Llanymddyfri sy'n ymestyn o bwynt 360 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i

chyffordd â chefnffordd yr A40 hyd at bwynt 465 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno.

5. Y darn o ymyl ddeheuol y gefnffordd a elwir yn Heol Newydd yn un rhan ac yn Heol Llanfair mewn rhan arall, Llanymddyfri sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A40 hyd at bwynt 78 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Stryd y Cerrig.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (LLANYMDDYFRI, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD AROS) 201-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 4(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd aros ar ymylon y darnau o Gefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion a elwir yn Heol Newydd yn un rhan ac yn Heol Llanfair mewn rhan arall yn Llanymddyfri, yn Sir Gaerfyrddin a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Ar hyn o bryd, gwaherddir aros ar rai o'r darnau o'r gefnffordd o dan sylw yn rhinwedd Gorchymyn Cefnffordd (yr A483) (Llanymddyfri, Dyfed) (Gwahardd Aros) 1991 a Gorchymyn Cefnffordd (yr A483) (Llanymddyfri, Dyfed) (Gwahardd Aros) (Diwygio) 1992 a gaiff eu dirymu a'u hailddeddfu gan y Gorchymyn arfaethedig.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 18 Chwefror 2016, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig a'r Gorchmynion a ddirymir, ynghyd â phlan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Llanymddyfri, Sgwâr y Farchnad, Llanymddyfri neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim oddi wrth y cyfeiriad isod drwy ddyfynnu'r cyfeirnod qA1227952.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 9 Mawrth 2016. Noder os gwelwch yn dda: os ydych am wrthwynebu, cefnogi neu gynnig sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a chyrff y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i ymdrin â'r materion yr ydych wedi eu dwyn i'n sylw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Deddfwriaeth Ddrafft/ Offerynnau Statudol Lleol Drafft/ Gorchmynion Traffig Parhaol).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

1. Y darn o ymyl ogleddol y gefnffordd a elwir yn Heol Newydd, Llanymddyfri sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A40 hyd at bwynt 75 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno.

2. Y darn o ymyl ogleddol y gefnffordd a elwir yn Heol Newydd, Llanymddyfri sy'n ymestyn o bwynt 192 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â chefnffordd yr A40 hyd at bwynt 236 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno.

3. Y darn o ymyl ogleddol y gefnffordd a elwir yn Heol Newydd, Llanymddyfri sy'n ymestyn o bwynt 272 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â chefnffordd yr A40 hyd at bwynt 326 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno.

4. Y darn o ymyl ogleddol y gefnffordd a elwir yn Heol Newydd yn un rhan ac yn Heol Llanfair mewn rhan arall, Llanymddyfri sy'n ymestyn o bwynt 360 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â chefnffordd yr A40 hyd at bwynt 465 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno.

5. Y darn o ymyl ddeheuol y gefnffordd a elwir yn Heol Newydd yn un rhan ac yn Heol Llanfair mewn rhan arall, Llanymddyfri sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A40 hyd at bwynt 78 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Stryd y Cerrig.